Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2022 am 10.30am.

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DJ) (Cadeirydd), Douglas Blackstock (DB), Philip Blaker (PB), Julie Brannan (JB), Hannah Burch (HB), Anne-Marie Duffy (AMD), Michael Griffiths (MG), Graham Hudson (GH), David W Jones (DWJ), John Latham (JL), Sharron Lusher (SL) a Jayne Woods (JW)

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT), Ashok Ahir (AA), Mark Pender (MP), Kerry Price (KP) (Eitemau 7 ac 8), Kate Welsher (KW) (Eitem 8) a Lisa Evans (LE) (Eitem 7).

Ymddiheuriadau: Mike Keoghane a Kelly Murphy o Lywodraeth Cymru.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod.

2. Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022 a 3 Mawrth 2022 a Diweddariad ar y Camau Gweithredu

2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar fân newid i gofnodion cyfarfod 3 Mawrth 2022. Nodwyd nad oedd ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â safbwynt Cymwysterau Cymru ynghylch mynd i'r afael â cholledion dysgu gwahaniaethol (fel y trafodwyd yn y cyfarfod ar ddechrau mis Mawrth) wedi dod i lawr eto ond bod disgwyl iddo gael ei dderbyn.

2.2. Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw gamau heb eu cymryd i'w hystyried.

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Darparodd y Cadeirydd adroddiad llafar i'r Bwrdd.

3.2 Adroddwyd bod y Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi cyfarfod yn anffurfiol cyn y cyfarfod lle cafwyd adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r newidiadau a wnaed yn ddiweddar i drefnu cyfarfodydd y Bwrdd a chyflwyno adroddiadau. Roedd y materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfod hwn yn cynnwys yr adolygiad arfaethedig o gymwysterau galwedigaethol gan Lywodraeth Cymru a phwysigrwydd ethos Cymreig Cymwysterau Cymru.

3.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai Ymchwiliad Covid-19 y DU yn dechrau'n fuan, a oedd wedi'i sefydlu i archwilio parodrwydd ac ymateb y DU i bandemig Covid-19, ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol. Roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y cylch gorchwyl, a rhagwelwyd y byddai'r ymchwiliad yn dechrau ar ôl Pasg 2022. Er y byddai'r ffocws yn bennaf ar faterion iechyd, byddai'r ymchwiliad hefyd yn ymdrin â materion fel cau ysgolion a chanslo arholiadau. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, teimlwyd bod y gwaith a wnaed i baratoi ar gyfer y Panel Adolygu Annibynnol ar Gymwysterau yng Nghymru yn golygu bod Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth o ymchwiliad Covid-19. Unwaith y bydd cylch gorchwyl yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, byddai'r sefydliad yn ystyried a fyddai'n ddefnyddiol cyflwyno gwybodaeth i'r ymchwiliad yn annibynnol ac yn rhagweithiol.

3.4 Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Llwybr i'r Bwrdd a chadarnhaodd fod pedwar aelod o'r Bwrdd wedi cytuno i fod yn fentoriaid a'u bod wedi cael eu rhoi mewn cysylltiad â'r rhai y byddan nhw'n eu mentora.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

4.1 Cyflwynodd PB ei adroddiad Prif Swyddog Gweithredol a oedd yn crynhoi'r gwaith ar draws y sefydliad nad oedd wedi'i gynnwys mewn mannau eraill ar yr agenda.

4.2 Rhoddodd PB ddiweddariad ar yr adolygiad cyflym o'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 a ddatblygwyd fel rhan o'r gyfres o gymwysterau a gomisiynwyd i'w haddysgu gyntaf yn 2020. Adroddwyd bod Colegau AB wedi codi pryderon pellach ynghylch canlyniadau 2 uned a aseswyd ym mis Ionawr, a oedd wedi'u rhyddhau yr wythnos flaenorol ac a oedd yn is na'r disgwyl. Nid oedd gwaith monitro Cymwysterau Cymru o'r prosesau a gynhaliwyd gan CBAC wedi codi unrhyw feysydd oedd yn peri pryder, a byddai'r materion a godwyd gan y Colegau AB yn cael eu nodi fel rhan o'r adolygiad cyflym. Trafododd y Bwrdd y rhesymau posibl y tu ôl i'r pryderon a adroddwyd.

4.3 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn debygol o ddechrau adolygiad o gymwysterau galwedigaethol ôl-16 i edrych ar y risgiau a gyflwynir i system gymwysterau Cymru sy'n deillio o newidiadau polisi yn Lloegr. Byddai hyn yn ystyried addasrwydd lefelau T ar gyfer dysgwyr yng Nghymru a chynaliadwyedd yr ystod o gymwysterau a oedd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Holodd aelod o'r Bwrdd a oedd digon o ymwybyddiaeth o'r gwaith a wnaed eisoes gan Cymwysterau Cymru mewn perthynas â hyn ac a oedd angen tynnu sylw at hyn eto.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

5. Diweddariad ar Cymwys ar gyfer y Dyfodol

5.1 Cyflwynodd EG bapur a oedd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Roedd y pwyntiau a'r gweithgareddau allweddol a drafodwyd yn cynnwys:

- Cyhoeddi penderfyniad y Bwrdd ar gymwysterau Cymraeg newydd.
- Dadansoddi adborth gan randdeiliaid a datblygu cynigion cychwynnol ar gyfer ail-lunio'r cynnig ehangach ar gyfer dysgwyr rhwng 14-16.
- Cynnydd o ran datblygu cynigion dylunio lefel uchel ar y cyd ar gyfer cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig wedi'u creu i Gymru.
- Amlinelliad o sut y byddai cyfraniadau gan y Grŵp Cynghori Academaidd yn helpu i lywio'r gwaith datblygu ar y cyd.
- Sut yr oedd Cymwysterau Cymru yn disgwyl sicrhau bod cymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig newydd ar gael.
- Gweithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu ehangach â rhanddeiliaid.
- Cynnydd o ran diffinio'r manteision allweddol ar gyfer diwygio cymwysterau.
- Trefniadau ar gyfer cydlynu cynlluniau a gweithgareddau gyda CBAC.
- Cynllunio lefel uchel ar gyfer camau'r prosiect yn y dyfodol, gan gynnwys ceisio adborth ar gynigion, datblygu a chymeradwyo cymwysterau newydd a helpu'r system i baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

5.2 O ran y cymhwyster Cymraeg ychwanegol newydd i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, gofynnwyd a fyddai hyn â'r un lefel o her â'r cymhwyster Cymraeg fel ail iaith presennol. Dywedodd EG mai'r bwriad oedd y byddai hyn o leiaf yr un maint a'r un lefel o anhawster â'r cymhwyster presennol, ac, o ystyried natur y cymhwyster hwn, bod angen cymryd gofal i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddeniadol i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y diweddariad a ddarparwyd ar gam nesaf Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

6. Trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer 2022

6.1 Cyflwynodd JR adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol yn ystod haf 2022. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyfres haf 2022 yn eithriadol am dri rheswm:

- Dyfarnu eithriadol - y penderfyniad i alinio â'r dull a ddefnyddir yn Lloegr a cheisio sicrhau bod canlyniadau haf 2022 tua hanner ffordd rhwng canlyniadau haf 2019 a haf 2021;

- Addasiadau – gwnaed addasiadau sylweddol i ofynion asesu i liniaru'r tarfu ar addysgu a dysgu yn sgil y pandemig. Nid oedd effaith lawn yr addasiadau hyn ar berfformiad yn hysbys.

- Hyder y cyhoedd - disgwylir craffu cyhoeddus dwys ynghylch dychwelyd i arholiadau, gyda diddordeb y cyhoedd yn y dull a ddefnyddiwyd yn haf 2022 yn sicr yn llawer uwch nag mewn amseroedd cyn COVID. Roedd hyn, ynghyd â phryderon am les dysgwyr, colledion dysgu gwahaniaethol, bylchau cyrhaeddiad yn ehangu ac aflonyddwch parhaus yn sgil COVID, i gyd yn faterion a allai effeithio ar hyder y cyhoedd yn y dulliau a ddefnyddiwyd mewn perthynas â chymwysterau yng Nghymru.

6.2 Trafododd y Bwrdd y senarios posibl ar gyfer haf 2022 a nododd y pryderon sylweddol sy'n gysylltiedig â chyfres arholiadau haf 2022, gan gynnwys: cymariaethau dros amser o safonau mewn TGAU, UG a Safon Uwch; craffu ar ba mor agos yw canlyniadau cymwysterau i'r pwynt canol; hyder y cyhoedd yn y canlyniadau cenedlaethol a'u derbyniad; a derbynioldeb y cyhoedd o unrhyw newidiadau mewn bylchau cyrhaeddiad.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar asesiadau a dyfarnu trefniadau ar gyfer haf 2022

7. Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2021/22

7.1 Mynychodd LE ar gyfer yr eitem hon a chyflwynodd ddiweddariad ar Gynllun Gweithredol 2021/22. Adroddwyd bod pob un o'r pum blaenoriaeth weithredol yn cael eu hystyried yn wyrdd.

7.2 Daeth KP i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad Diweddaru'r Gyllideb. Nododd KP y rhagwelwyd cyfanswm gwariant o £9m ar ddiwedd mis Chwefror 2021, a fyddai'n arwain at danwariant o £852k.

7.3 Nododd aelodau'r Bwrdd lefel y tanwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol a nodwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod mewn perthynas â phennu'r gyllideb ar gyfer 2022-23.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd Gynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2021/22

8. Cynllun Gweithredol 2022 - 23 (gan gynnwys blaenoriaethau gweithredol a chyllideb) a Chynllun Busnes drafft (allanol)

8.1 Cyflwynodd AS Gynllun Gweithredol 2022-23, a oedd yn cynnwys y blaenoriaethau gweithredol a'r gyllideb, a'r Cynllun Busnes drafft (allanol). Nodwyd bod y

Pwyllgor Adnoddau wedi ystyried hyn yn ei gyfarfod yr wythnos flaenorol, lle gofynnwyd i'r naratif yn y Cynllun Busnes gael ei ddiwygio i roi mwy o eglurder ar amcanion y sefydliad, ac adlewyrchwyd hyn yn y dogfennau a gyflwynwyd i'r Bwrdd. Nodwyd y byddai'r cynllun busnes yn cael ei ddiwygio ymhellach ar ôl i fanylion yr adolygiad o gymwysterau galwedigaethol gan Lywodraeth Cymru ddod i'r amlwg.

8.2 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod nifer sylweddol o flaenoriaethau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredol a'r cynllun busnes, a gofynnwyd a oedd ffordd o ddangos sut yr oedd y rhain yn cael eu blaenoriaethu gan y sefydliad, yn enwedig o ran defnyddio staff. Ymatebodd AS fod hyn yn rhywbeth a drafodir yn aml yn y Bwrdd Rheoli a byddai'n ystyried sut y gellid mynegi hyn yn well i aelodau'r Bwrdd, naill ai fel rhan o'r cynllun busnes neu ar wahân. Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud y cynllun busnes yn fwy cryno gan fod llawer iawn o fanylion wedi'u cynnwys ynddo ar hyn o bryd a allai fod yn ddiangen i'w darparu mewn dogfen gyhoeddus. Gofynnwyd felly i'r cynllun busnes gael ei gwtogi.

- Nodwyd bod Cymwysterau Cymru yn adrodd tanwariant yn rheolaidd ar ddiwedd pob blwyddyn, a gofynnwyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r cyfleoedd posibl yr oedd hyn yn eu darparu i'r sefydliad. Ymatebodd AS fod hyn wedi'i gydnabod gan y Bwrdd Rheoli a'i fod wedi arwain at y cynnig i newid cydbwysedd y cyllid rhwng dim cyflog a chyflog i adlewyrchu'r defnydd helaethach o staff mewnol mewn gwaith.

- Soniwyd am y cynnydd diweddar mewn chwyddiant ac effeithiau canlyniadol hyn, a nododd AS fod hyn wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2022-23 lle bo hynny'n bosibl.

- Dywedodd aelod o'r Bwrdd fod ymchwil yn faes gwaith pwysig i Cymwysterau Cymru nad oedd yn ymddangos ei fod yn ddigon gweladwy yn y dogfennau, yn enwedig o ran y gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud i gefnogi ail-ddychmygu cymwysterau'r dyfodol. Gofynnwyd i naratif y cynllun busnes gael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'n well bwysigrwydd ymchwil i'r sefydliad.

8.3 Crynhodd KP a KW y sefyllfa o ran cyllideb 2022-23 a'r gofynion o ran adnoddau, yn enwedig o ran y cynnydd arfaethedig yn y nifer y staff i 95 aelod o staff.

8.4 Fel Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau, cadarnhaodd SL fod y pwyllgor wedi trafod y cynnig yn fanwl a chadarnhaodd ei fod wedi cael sicrwydd, o ystyried y pwysau cost a ragwelir a'r £250,000 ychwanegol mewn cyllid cyfalaf, fod y gyllideb yn realistig.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

(i) Yn amodol ar y sylwadau uchod, cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:

- **Y Blaenoriaethau Gweithredol ar gyfer 2022-23;**
- **Y Cynllun Busnes ar gyfer 2022-23;**
- **Y Gyllideb ar gyfer 2023-23.**

(ii) Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cymeradwyo fersiynau terfynol y dogfennau uchod er mwyn caniatáu ar gyfer y diwygiadau a nodir uchod.

(iii) Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i gynyddu nifer y staff parhaol cymeradwy i 95 aelod o staff.

(iv) Nododd y Bwrdd y Cynllun Cyllid Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru.

9. Adroddiad Rheoli Risg

9.1 Rhoddodd MP yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

9.2 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, awgrymwyd bod y gofrestr risg a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn anodd ei darllen yn ei ffurf bresennol, a chytunwyd y byddai'r ddogfen hon yn cael ei darparu yn y dyfodol fel taenlen excel er mwyn sicrhau ei bod yn haws i'r aelodau ei darllen.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd yr adroddiad rheoli risg a'r gofrestr risg gorfforaethol; ac**
- **Yn y dyfodol, y gofrestr risg i'w darparu fel taenlen excel.**

10. Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024

10.1 Cyflwynodd MP adroddiad a oedd yn cyflwyno amcanion drafft Cynllun Cydraddoldeb 2022-2024. Adroddwyd bod adolygiad gweddol arwynebol wedi'i gynnal y tro hwn gydag adolygiad mawr wedi'i gynllunio ar gyfer 2023 i sicrhau bod y cylch adrodd pedair blynedd yn cyd-fynd â Llywodraeth Cymru a chyrff eraill a noddir (h.y. ar gyfer amcanion newydd i redeg o 2024 i 2028). Nodwyd bod y Pwyllgor Adnoddau wedi ystyried yr amcanion drafft yr wythnos flaenorol, ac ar ôl hynny roedd y ddogfen wedi'i diwygio. Byddai'r ddogfen hefyd yn cael ei hadolygu gan gynghorwyr cyfreithiol Cymwysterau Cymru i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, ac felly gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a gwneud sylwadau ar yr amcanion cydraddoldeb drafft ac yna dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i gymeradwyo'r fersiwn derfynol.

10.2 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gwnaed y pwyntiau a ganlyn gan aelodau'r Bwrdd:

- Awgrymwyd bod angen nodi'r amcanion ar dudalen 5 o'r ddogfen yn fwy penodol ac y dylid eu haileirio'n unol â hynny;

- Mewn sawl man, nodwyd y rhwymedigaethau cyfreithiol ar y sefydliad mewn modd negyddol yn hytrach na chadarnhaol ac awgrymwyd y dylid gwirio hyn gyda'r cynghorwyr cyfreithiol a'i ddiwygio os yw hynny'n bosibl;

- Trafodwyd sut yr oedd materion cydraddoldeb systemig y tu allan i gylch gwaith Cymwysterau Cymru yn cael eu monitro a'u nodi. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd meini prawf llwyddiant o ran galluogi'r sefydliad i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb, a nodwyd y byddai camau gweithredu allweddol sy'n deillio o'r amcanion yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredol ar gyfer 2022-23 i helpu i fesur cynnydd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Cytunodd y Bwrdd y dylid diweddaru'r amcanion cydraddoldeb i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r Bwrdd, ac yn amodol ar adolygiad gan y cynghorwyr cyfreithiol, dylid dirprwyo'r awdurdod i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i gymeradwyo'r fersiwn derfynol. Gofynnwyd hefyd i Hannah Birch adolygu'r amcanion diwygiedig cyn eu cymeradwyo'n derfynol er mwyn adeiladu ar ei mewnbwn, ei harbenigedd a'i diddordeb blaenorol yn y maes hwn.

11. Diweddariadau'r Pwyllgorau

11.1 Derbyniodd y Bwrdd Adroddiadau Sicrwydd y Cadeirydd o'r cyfarfodydd pwyllgor canlynol:

- Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol - 15 Chwefror 2022
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg - 3 Mawrth 2022
- Y Pwyllgor Adnoddau - 15 Mawrth 2022

11.2 O ran y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, adroddwyd bod adroddiad archwilio mewnol pellach wedi dod i law ers y cyfarfod hwn ar ddychwelyd i weithio ar y safle yn dilyn y pandemig. Nid oedd rhai o argymhellion yr archwiliad hwn wedi'u derbyn gan y rheolwyr gan y teimlid eu bod yn ddiangen neu nad oedd cyfiawnhad drostyn nhw.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiadau diweddaru'r Pwyllgor.

12. Rhagolwg

12.1 Nododd y Bwrdd y Rhagolwg a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu ag MP pe byddai unrhyw eitemau yr hoffent eu hychwanegu at agendâu'r dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm